

Presennol: Cyng. Rosemarie Harris – Arweinydd Cyngor Sir Powys - Cadeirydd
Cyng. Ellen Ap Gwynn – Arweinydd Cyngor Sir Ceredigion – Is-gadeirydd

Y Cyngorydd Dafydd Edwards – Deiliad Portffolio Cabinet: Priffyrdd a'r Amgylchedd gan gynnwys Tai (Ceredigion) **(Cyng. DE)**
Y Cyngorydd James Evans – Deiliad Portffolio Cabinet: Datblygu Economaidd, Tai a Gwasanaethau Rheoleiddio (Cyngor Sir Powys) **(Cyng. JE)**
Y Cyngorydd Myfanwy Alexander – Deiliad Portffolio Cabinet: Gofal Cymdeithasol Oedolion a'r Gymraeg (Cyngor Sir Powys) **(Cyng. MA)**
Y Cyngorydd Phyl Davies – Cyngor Sir Powys **(Cyng. PhD)**
Y Cyngorydd Rhodri Evans – Aelod Cabinet: Datblygu Economaidd (Ceredigion) **(Cyng. RE)**
Ann Elias – Cyngor Sir Ceredigion **(AE)**
Alison Sandford – Llywodraeth Cymru **(AS)**
Arwyn Davies – Cyngor Sir Ceredigion **(AD)**
Arwyn Watkins OBE – Hyfforddiant Cambrian **(AW)**
Caroline Turner – Prif Weithredwr Cyngor Sir Powys **(CT)**
Carwyn Jones-Evans – Cyngor Sir Ceredigion **(CJ-E)**
Ceri Stephens – Grŵp Gweithgynhyrchu Canolbarth Cymru **(CS)**
Claire Miles – Tîm Ymgysylltu Rhanbarthol Canolbarth Cymru **(CM)**
Eifion Evans – Prif Weithredwr Cyngor Sir Ceredigion **(EE)**
Emma Wilde – Siambr Masnach Canolbarth Cymru **(EW)**
Gareth Jones – Cyngor Sir Powys **(GJ)**
Helen Jones – Croeso Cymru **(HJ)**
Hywel Davies – Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant (rhan) **(HD)**
Jane Davidson – Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant **(JD)**
Lowri Gwilym – Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru **(LG)**
Marie Evans – Tîm Ymgysylltu Rhanbarthol Canolbarth Cymru **(ME)**
Mark Dacey – Grŵp Colegau Coleg Nedd Port Talbot **(MD)**
Martin Cox – Cyfoeth Naturiol Cymru **(MC)**
Nia Williams – Cyd-bwyllgor Iechyd a Gofal Canolbarth Cymru **(NW)**
Nigel Brinn – Cyngor Sir Powys **(NB)**
Peter Howells – NFU **(PH)**
Peter James – Llywodraeth Cymru **(PJ)**
Rhodri Llwyd Morgan – Prifysgol Aberystwyth **(RLIM)**
Rowland Rees-Evans – Twristiaeth Canolbarth Cymru **(RRE)**
Russell Hughes-Pickering – Cyngor Sir Ceredigion **(RHP)**
Siwan Richards – Cyngor Sir Ceredigion **(SR)**
Steve Hughson – Prif Weithredwr Cymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru **(SH)**

Cofnodion cyfarfod Partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru a gynhaliwyd Ddydd Llun, 1af Mehefin 2020 ar Zoom.

Dechreuodd y cyfarfod gyda'r Cyngorydd Ellen Ap Gwynn yn trosglwyddo Cadeiryddiaeth Partneriaeth TCC i'r Cyngorydd Rosemarie Harris am y flwyddyn sydd i ddod, sef 2020-2021.

	Gweithredu
<p>1. Ymddiheuriadau am absenoldeb Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth:-</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ann Watkin - Llywodraeth Cymru • Rhodri Griffiths - Llywodraeth Cymru • Cyng. Gareth Thomas – Cyngor Sir Gwynedd • Emyr Williams - Parc Cenedlaethol Eryri • Doug Hughes, Hughes Architects • Gerwyn Evans, Llywodraeth Cymru • Rhian Hayward, Prifysgol Aberystwyth • Rob Holt, Llywodraeth Cymru • Vanessa Naughton, Llywodraeth Cymru • Vivienne Lewis, Llywodraeth Cymru • Carl Cooper, PAVO • Jayne Jones 	
<p>2. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL – 17eg Ionawr 2020 Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 17eg Ionawr 2020 yn gofnod cywir. Cynigiwyd hynny gan y Cynghorydd James Evans ac fe'i eiliwyd gan y Cynghorydd Rhodri Evans. Doedd dim materion yn codi o'r Cofnodion.</p>	
<p>3. Y Diweddaraf am y Fargen Twf</p> <ul style="list-style-type: none"> • Diweddariad ar Gynnydd • Dogfen y Cynnig Rhanbarthol • Adborth a Chamau Nesaf <p>Cyflwynodd CJE ddogfen derfynol y cynnig rhanbarthol sydd wedi'i chyflwyno'n ffurfiol erbyn hyn gan Arweinydd Cyngor Sir Powys (CSP) ac Arweinydd Cyngor Sir Ceredigion (CSC) i swyddfeydd Ken Skates AS, Lee Waters AS, Simon Hart AS a David TC Davies AS a disgwyliar adborth ffurfiol.</p> <p>Dywedodd CJE fod y ddogfen wedi'i llunio drwy ymgysylltu a'i bod yn mynegi ein Cynllun Economaidd Strategol a'n map ffordd ar gyfer y Fargen Twf. Cynhaliwyd trafodaethau â rhanddeiliaid gwahanol a'r Grŵp Strategaeth Economaidd i sicrhau bod y ddogfen hon yn parhau i fod yn ddilys yn y cyd-destun presennol, ac er bod yr economi'n dioddef yn sgil y pandemig Coronafeirws presennol, ei bod hi'n dal i gyflawni'i phwrpas o ran mynegi pwysigrwydd rhai o'r sectorau hyn i economi Canolbarth Cymru. Er bod y llinell sylfaen wedi newid, mae'r blaenoriaethau'n parhau i fod yn rhai lefel uchel, ac mae'r dull a amlinellwyd yn berthnasol o hyd.</p> <p>Esboniodd CJE fod sgrysiâu wedi'u cynnal â gweision sifil cyn cyflwyno'r ddogfen yn ffurfiol ac nad oedd unrhyw arwydd fod y sefyllfa wedi newid yn nhermau'r Fargen Twf na'r ariannu, a bod y ddwy lywodraeth a'r rhanbarth yn dal i weld hyn fel offeryn ariannu hirdymor sydd angen ei ddatblygu ar y cyd fel rhanbarth.</p> <p>Esboniodd CJE y bydd cyfarfod gwleidyddol â Gweinidogion y ddwy Lywodraeth yn cael ei gynnal ganol Mehefin i siapio'r camau nesaf a'r disgwyliadau allweddol.</p> <p>Dywedodd CJE fod y Cytundeb Rhyng-awdurdod wedi'i gytuno gan Aelodau yng nghyfarfod ffurfiol cyntaf (Cydbwyllgor) Bwrdd TCC ar 11eg Mai 2020 a bod dogfen y cynnig rhanbarthol wedi'i chytuno hefyd. Esboniodd CJE, am fod cyfarfod y Cydbwyllgor erbyn hyn yn gyfarfod democrataidd, y bydd y papurau ar gael i'r cyhoedd nawr ar wefannau CSC a CSP.</p>	

	<p>Gofynnodd EW a fyddai unrhyw drefniadau i hyrwyddo'r cyfarfodydd a'r papur ar y Cyfryngau Cymdeithasol yn y dyfodol, ac a fydd yna wefan benodol ar wahân ar gyfer y Fargen Twf?</p> <p>Dywedodd CJE fod sgysiau ar droed gyda'r Llywodraeth ac yn y cyfarfod gyda Gweinidogion, mewn pythefnos, byddant yn nodi faint o gyfathrebu allanol y gellir ei wneud yn ystod y cam hwn. Yn nhermau papurau'r Cydbwyllgor, byddant yn cael eu cyhoeddi gan yr Awdurdodau Lleol, fel y byddent yn arferol, gyda busnes y Cyngor. Dywedodd CJE fod cwmni wedi'i gomisiynu ar gyfer gwefan TCC a chynhelir cyfarfod cychwynnol yn fuan.</p>	
<p>4.</p>	<p>Y Darlun Rhanbarthol Ehangach Adferiad Economaidd Rhanbarthol - Pawb Rosemarie Harris – busnesau twristiaeth gartref</p> <p>Dywedodd y Cadeirydd, er na fu unrhyw adfer economaidd rhanbarthol fel y cyfryw, bod y ddau Awdurdod Lleol wedi bod wrthi, ac yn dal i fod wrthi'n gweithio'n galed i adfer yr economi. Darparwyd diweddariad gan y ddau awdurdod lleol a LIC ar y gwaith a wnaed hyd yn hyn.</p> <p>Dywedodd NB, CSP fod CSP wedi canolbwyntio ar grantiau busnes LIC a'u bod wedi cefnogi 3000 o fusnesau gyda chynngor a chymorth i gael y grant cenedlaethol. Dywedodd NB fod disgwyl y bydd ail rownd o arian Cadernid Economaidd ar gael, a ddylai fod yn fwy lleol o lawer. Nododd NB fod angen canolbwyntio ar adferiad lleol a rhanbarthol, a bod trafodaethau ar droed ynghylch hynny.</p> <p>Dywedodd AD, CSC fod gwasanaeth cyllid CSC wedi bod yn gweithio drwy'r cynllun grant ardrethi annomestig, a fu'n gweithredu fel rhan o'r Rhaglen Genedlaethol. Cynhaliwyd trafodaethau â busnesau ynghylch cael mynediad at gymorth y Gronfa Cadernid Economaidd a weithredir gan LIC. Cynhaliwyd trafodaethau â chydweithwyr a CSP ar yr addasiadau sydd eu hangen wrth edrych tuag at y 'normal newydd' a sut y gallwn ganolbwyntio'n rhanbarthol i gefnogi'r economi.</p> <p>Dywedodd HJ, Croeso Cymru, fod gan LIC becyn cymorth gwerth £1.7 biliwn i helpu i gefnogi busnesau, a bod Croeso Cymru yn dal i geisio cael cymorth pellach. Dywedodd HJ y bydd gwiriwr cymhwysedd Cam 2 y Gronfa Cadernid Economaidd ar wefan Busnes Cymru ganol Mehefin, gyda'r gronfa'n agor o 30ain Mehefin. Mae HJ yn credu bod yna gronfa caledi y mae cydweithwyr yn gweithio arni a fydd yn helpu busnesau all fod yn llithro drwy'r rhwyd.</p> <p>Dywedodd y Cadeirydd ei bod hi a'r Is-gadeirydd, EAG, wedi bod yn rhan o drafodaethau CLILC gyda Swyddogion Busnes Cymru ynghylch cynlluniau bwrsari i fusnesau sy'n unig fasnachwyr, nad ydynt wedi cofrestru at ddibenion TAW efallai neu sy'n fusnesau newydd heb gyfrifon. Dywedodd y Cadeirydd ei bod hi a'r Is-gadeirydd wedi gwthio am gael Awdurdodau Lleol yn delio â'r cynlluniau oherwydd bydd Aelodau fel arfer yn gyfarwydd â'r busnesau yn eu hardaloedd. Dywedodd y Cadeirydd y byddan nhw'n diweddarau'r bartneriaeth yn rheolaidd ar eu cynnydd.</p> <p>Dywedodd PD, FUW wrth y bartneriaeth ei fod wedi ysgrifennu'n ddiweddar at Fanc Datblygu Cymru yn gofyn am fanylion sirol ar y modd maent wedi dosbarthu £25m ar gyfer Canolbarth a Gorllewin Cymru. Mae PD wedi anfon y manylion ymlaen at Brif Weithredwr CSC a'r Cyng. Rhodri Evans, Aelod Cabinet dros yr Economi ac Adfywio, fel eu bod nhw'n ymwybodol o'r manylion. Roedd yna</p>	

fuddsoddiad cyfartalog o £60,000 ar gyfer Canolbarth Cymru sy'n eithaf sylweddol yng Ngorllewin Cymru.

Diolchodd SH, fel Cadeirydd Fforwm Twristiaeth Canolbarth Cymru, i'r ddau awdurdod lleol am yr holl waith a wnaed i gynorthwyo Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU i weinyddu symiau mawr y grant. Dywedodd SH eu bod wedi gweithio gyda LIC yn wythnosol ar yr amserlen goleuadau traffig ar gyfer codi cyfyngiadau, a'u bod ar ddeall y gall y cyfnod 'ambr' ddod pan fydd LIC yn adolygu atyniadau awyr agored a hunanarlwyo eto mewn tair wythnos. Dywedodd SH fod yn rhaid codi cyfyngiadau gyda sêl bendith a chefnogaeth y cymunedau, a phan fydd cyflogwyr a staff yn teimlo'n hyderus ei bod hi'n ddiogel gwneud hynny. Dywedodd SH ei fod o'r farn bod angen creu cynllun adfer ar gyfer amaethyddiaeth, bwyd a diod, a thwristiaeth sy'n adlewyrchu pryderon cymunedau, a sut y bydd y pryderon hynny'n cael eu rheoli'n ddiogel i annog twristiaeth a chadw'r rhai sydd yn y diwydiant twristiaeth mewn gwaith.

Dywedodd EE fod y diwydiant twristiaeth yn gonsyrn yng Ngheredigion yn arbennig oherwydd nifer y safleoedd carafannau yn y Sir, a'i fod o'r farn bod angen strategaeth wahanol ar gyfer datgloi rhai elfennau o dwristiaeth. Dywedodd EE, unwaith bod y cyfyngiadau teithio'n codi, y bydd hynny'n golygu bod cartrefi ychwanegol yn cael eu poblogi gan berchnogion ail gartrefi yng Ngheredigion. Pwysleisiodd EE y bydd angen mynd ati i ailagor twristiaeth mewn ffordd ofalus a bod trafodaethau ar droed gyda LIC am hyn.

Dywedodd RRE ei fod yn deall bod angen agor twristiaeth yn ofalus ond os bydd y cyfyngiadau presennol yng Nghymru'n parhau mi fydd yna effaith economaidd andwyol ar dwristiaeth a busnesau a bydd yn cymryd amser hir i adfer.

Awgrymodd SH fod angen i'r ddau awdurdod a Fforwm Twristiaeth Canolbarth Cymru gael cynllun i symud ymlaen gyda'i gilydd mewn ffordd fydd yn gwneud i bobl deimlo'n hyderus ac yn ddiogel.

Awgrymodd EAG y dylid gofyn i fusnesau am syniadau ar gyfer ail-agor yn ddiogel, ac mi allai hithau a'r Cadeirydd roi adborth i'r Gweinidogion yn ystod eu cyfarfodydd wythnosol.

Dywedodd SH yr hoffai weld Strategaeth Gyfathrebu ar gyfer Canolbarth Cymru, yn cael ei chefnogi gan Croeso Cymru, er mwyn rhoi hyder i sectorau gwahanol ail-agor ar y cyd mewn ffordd hyderus. Dywedodd SH y bydd Fforwm Twristiaeth Canolbarth Cymru'n mynd ati i gasglu syniadau ar gyfer ail-agor yn ddiogel, a hoffent gael cefnogaeth y ddau Awdurdod Lleol.

Dywedodd y Cyng. JE y bydd hi'n bwysig i'r rhanbarth ganolbwyntio ar wyliau digarbon yn y dyfodol a bydd angen annog pobl i gymryd eu gwyliau gartref a chefnogi busnesau lleol yn ystod y cyfnod adfer.

Dywedodd HJ fod Croeso Cymru yn gwneud popeth o fewn ei allu i fynd i'r afael â'r materion hyn a'u bod yn gweithio gyda rhanddeiliaid a'r diwydiant twristiaeth i geisio cael ymgynghoriadau a chanllawiau yn eu lle cyn gynted â phosib.

Pwysleisiodd RH fod gan y ddau awdurdod lleol gynlluniau adfer yn eu lle mewn meysydd megis addysg, ond bod yna rai meysydd y byddai'n addas eu cyflwyno i'r bartneriaeth hon, ac awgrymodd y byddai'n fuddiol trafod y rhain yn y cyfarfod nesaf, gan ddsbarthu unrhyw wybodaeth berthnasol yn y cyfamser drwy e-bost os oedd angen.

Pawb

	<p>Dywedodd PJ y bydd LIC yn cyflwyno Fframwaith Economaidd Rhanbarthol Canolbarth Cymru'n fuan, a bydd y swyddfa ranbarthol yn ystyried sut i addasu at ddibenion gwahanol yn y tymor byr, gan edrych ar ail-ddechrau ar ein cynlluniau i adfer yr economi.</p> <p>Nododd NB fod y menter tref hefyd yn awyddus i gymryd rhan lle bo modd i helpu i leddfu'r effaith ar Drefi Canolbarth Cymru.</p> <p>Dywedodd y Cadeirydd fod gwaith ar droed hefyd gyda fforwm Gwledig CLILC. Bu'r fforwm yn edrych ar dwristiaeth wledig, mentrau trefi bach a chynhyrchu bwyd a diod.</p> <p>GWEITHREDU: Dywedodd y Cadeirydd y bydd Adferiad yn cael ei gynnwys fel eitem ar yr agenda yng nghyfarfod nesaf Partneriaeth TCC ar 21ain Medi 2020.</p>	
<p>5.</p>	<p>Buddsoddi Rhanbarthol yng Nghymru ar ôl Brexit – Llywodraeth Cymru</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ymateb Tyfu Canolbarth Cymru i'r Ymgynghoriad <p>Rhoddodd AS gefndir Ymgynghoriad Buddsoddi Rhanbarthol yng Nghymru (a ddosbarthwyd i Aelodau'r Bartneriaeth) i'r Aelodau. Dywedodd AS fod yr ymgynghoriad hwn wedi'i gynllunio ar y cyd â Grŵp Llywio Buddsoddi Rhanbarthol yng Nghymru, 4 o rhanddeiliaid a 4 is-grŵp unigol, i edrych ar feysydd penodol megis cyflawni, polisi, monitro a gwerthuso, a gweithio trawsffiniol a rhyngwladol. Mae'r ymgynghoriad yn cau ar 5ed Mehefin 2020.</p> <p>Dywedodd AS eu bod yn gweithio gyda'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD) i edrych ar arfer gorau yn rhyngwladol. Mae'r Sefydliad wedi gosod her o ran sut y gall LIC symud ymlaen gyda'r arian a fydd yn disodli arian UE gan sicrhau'r effaith fwyaf a chanlyniadau gwell yn y dyfodol.</p> <p>Dywedodd AS fod llawer yn digwydd ar yr agenda rhanbartholi. Cynhaliwyd pedair gweminar ymgynghori ac mae LIC am ffurfio cyswllt â datblygiadau rhanbarthol gan gynnwys y Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau a sefydlu Cydbwyllgorau Corfforaethol. Mae'r Bargeinion Dinesig a Thwf hefyd yn bwysig i'r agenda rhanbartholi ac mae LIC yn awyddus i weithio gyda rhanbarthau fel rhan o'r ymgynghoriad i sicrhau bod yna gydweddu â datblygiadau yn y rhanbarth.</p> <p>Dywedodd AS fod LIC wedi ymrwmo i adeiladu dyfodol buddsoddi rhanbarthol o amgylch effaith fwy hirdymor, gyda CLILC wrth galon y cynlluniau. Dywedodd AS fod LIC yn cydnabod y bydd angen iddynt ymateb i'r pandemig presennol ac mae'r blaenoriaethau yn y ddogfen yn ddigon hyblyg i hwyluso cynlluniau ar gyfer adferiad economaidd rhanbarthol.</p> <p>Cynigiwyd cael un gronfa flynyddol, am fod rhanddeiliaid wedi tanlinellu y byddai hyn yn bwysig yn nhermau cynllunio ymlaen llaw, ac integreiddio gyda chynlluniau ariannu ehangach yng Nghymru a thu hwnt.</p> <p>Mae yna ymrwymiad i'r agenda rhanbartholi ac mae LIC yn cynnig dirprwyo a gwneud penderfyniadau ar y lefel hon.</p> <p>Dywedodd AS fod LIC yn cynnig fframwaith mwy syml a hyblyg, ac mi hoffai gael adborth yr Aelodau ar sut y gellid gwneud hynny y tu allan i reoliadau'r UE ond gan barhau i sicrhau atebolrwydd, archwiliadwyedd a thryloywder, yn ogystal â sicrhau gwerth am arian wrth ddosbarthu arian cyhoeddus.</p>	

<p>Dyweddod AS fod LIC yn cynnig mwy o gyfleoedd ar gyfer gweithio trawsffiniol a rhyngwladol, ac mae is-grwpiau wedi bod yn cwrdd i drafod y cyfleoedd hyn. Croesewir adborth ychwanegol ar hyn.</p> <p>Dyweddod AS fod gan LIC themâu llorweddol allweddol hefyd, sef cydraddoldeb a'r Gymraeg ac mae'n croesawu barn ar y ffordd orau o integreiddio'r rhain i'r gweithgareddau.</p> <p>Dyweddod AS fod yr ymgynghoriad yn canolbwyntio ar feysydd sydd wedi'u datganoli ac nad oes unrhyw gyfeiriad at Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU am fod LIC wedi ymrwymo i ddatblygu fframwaith ar gyfer pobl yng Nghymru yn unol â chyfrifoldebau datganoledig.</p> <p>Dyweddod AS fod Llywodraeth y DU wedi bod yn glir na ddylai'r ariannu fod ar lefelau is na'r rhai presennol ac mae'n hanfodol ein bod yn cael yr arian o ddechrau 2021 ymlaen, ond ni dderbyniwyd unrhyw fanylion pellach hyd yn hyn. Mae rhai blaenoriaethau a rennir gyda Llywodraeth y DU y gallwn adeiladu arnynt yn nhermau swyddi, yr economi a chyflogaeth, yn ogystal â gwaith rhynglywodraethol, sydd wedi cynyddu erbyn hyn mewn ymateb i Covid-19.</p> <p>Esboniodd AS fod y dadansoddiad economaidd-gymdeithasol sy'n cefnogi'r ymgynghoriad wedi'i ddrfftio cyn Covid-19 ac mae angen ei ddiweddarau yng ngoleuni'r goblygiadau uniongyrchol. Mae angen inni ystyried ein fframwaith economaidd ar gyfer buddsoddi rhanbarthol yn y cynlluniau ehangach ar gyfer adferiad economaidd.</p> <p>Dyweddod AS y cynhelir dadansoddiad annibynnol o'r ymatebion i'r ymgynghoriad er mwyn gallu rhoi adborth i Weinidogion yng Ngorffennaf, fel bod modd iddyn nhw gytuno ar y camau nesaf dros y chwech mis sydd i ddod, yn y gobaith o roi'r fframwaith ar waith yn gynnar yn 2021.</p> <p>Dyweddod CM ei bod wedi drfftio ymateb rhanbarthol i'r Bartneriaeth ei ystyried (wedi'i ddosbarthu gydag agenda heddiw) a bydd y ddogfen Strategaeth Economaidd ranbarthol wedi'i hatodi at hwnnw hefyd. Dyweddod CM eu bod hefyd wedi gweithio'n agos â swyddogion yr ALI a swyddogion sy'n cefnogi Grwpiau Gweithredu Lleol i rannu gwybodaeth er mwyn paratoi ymateb.</p> <p>Gofynnodd CM i'r Aelodau roi gwybod iddi am unrhyw newidiadau ychwanegol i'r ymateb i'r ymgynghoriad drafft erbyn diwedd y dydd yfory (Dydd Mawrth, 2il Mehefin 2020).</p> <p>Rhoddodd RhLIM ddiweddariad cryno ar ymateb Prifysgol Aberystwyth i'r ymgynghoriad. Dyweddod RhLIM y bydd ymateb y Brifysgol fel sefydliad yn ymwneud â'r diffyg cydnabyddiaeth i ymchwil ac arloesedd, a'u bod yn gweld perygl am fod cymaint yn fwy o arian Llywodraeth yn mynd i ymchwil ac arloesedd yn Lloegr o'i gymharu â Chymru, a bod y cronfeydd strwythurol Ewropeaidd wedi bod yn allweddol i ymchwil ac arloesedd yng Nghymru. Dyweddod RhLIM mai cynnig y Brifysgol fydd diogelu gwariant Ymchwil a Datblygu ac mae'n awyddus i LIC wrando ar y neges honno.</p> <p>Dyweddod yr Is-gadeirydd fod buddsoddi mewn Ymchwil a Datblygu yng Ngheredigion yn hanfodol ar gyfer y gwaith sy'n cael ei wneud gan y Brifysgol. Cyfeiriodd yr Is-gadeirydd at y cyhoeddiad ddoe fod yna bosibilrwydd nad yw Llywodraeth Lloegr am i fyfyrwyr Seisnig astudio yn y gwledydd cartref eraill, a nes bod hynny wedi'i ddatrys, bod pethau'n mynd i fod yn anodd. Nid yw'r ganran o arian Ymchwil a Datblygu sy'n dod i Gymru fel y dylai fod ac rydym wedi'n gadael ar ôl.</p>	<p>Pawb</p>
---	--------------------

	<p>Roedd JD hefyd yn cytuno'n gryf â'r pwyntiau a godwyd. Dywedodd JD fod angen inni ystyried y cyd-destun, sef pa mor llydan yw ein ffin a pha mor bwysig yw hynny yn nhermau addysg bellach Gymraeg yng Nghanolbarth Cymru.</p> <p>GWEITHREDU: Yr Aelodau i ddarparu CM â sylwadau pellach ar gyfer yr ymateb i'r ymgynghoriad drafft erbyn diwedd y dydd ar 2il Mehefin 2020.</p>	
6.	<p>Diweddariadau Rhanbarthol:</p> <p>i. Rhaglen Buddsoddiad Adfywio wedi'i Dargedu</p> <p>Dywedodd CJE fod y ddau Awdurdod Lleol yn dal i symud ymlaen gyda'r prosiectau Buddsoddiad Adfywio wedi'i Dargedu. Esboniodd CJE fod y pandemig Covid-19 wedi effeithio ar amserlenni cyflawni rhai o'r prosiectau a bod trafodaethau ar droed gyda LIC ynghylch lliniaru'r effaith.</p> <p>Dywedodd CJE fod y gronfa Buddsoddi Mewn Eiddo Canol Tref yn dal ar agor a bod yna lawer o ddi-ddordeb allanol o hyd o du busnesau. Gofynnodd CJE i'r Aelodau gyfeirio unrhyw fusnesau y teimlant allai elwa ohoni at y gronfa hon.</p> <p>ii. Adroddiad y Tîm Ymgysylltu Rhanbarthol</p> <p>Hysbysodd CM y Bartneriaeth fod gan y Tîm Ymgysylltu Rhanbarthol aelod newydd, sef Marie Evans, a heddiw yw ei diwrnod cyntaf fel swyddog cymorth gweithrediadau'r Tîm. Esboniodd CM fod eu gwaith yn ddiweddar wedi canolbwyntio ar y pandemig Covid-19 ond roeddent wedi bod wrthi'n ail-ymgysylltu â gweithrediadau Cronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF) yn y rhanbarth er mwyn rhoi adborth i WEFO. Dywedodd CM fod y rhan fwyaf o'r prosiectau seilwaith wedi cael eu traed tanynt cyn y pandemig, felly serch yr oedi o ran adeiladu, mae yna amser ar ôl o hyd yn y rhaglen i gwblhau mwyafrif y prosiectau.</p> <p>Dywedodd CM ei bod hi'n bwysig nodi, ar wahân i ESF blaenoriaeth 5, bod yr holl gronfeydd ariannu ERDF/ESF eraill wedi'u rhewi am fod yr arian yn cael ei ail-gyfeirio i helpu gyda'r pandemig Covid-19. Mae trafodaethau'n cael eu cynnal gyda WEFO ynghylch a fydd arian ar gael eto a phryd.</p> <p>Dywedodd CM fod trafodaethau wedi'u cynnal ynghylch sefydlu dau rwydwaith rhanbarthol ar draws Canolbarth Cymru, sef Rhwydwaith Cystadleurwydd Busnesau Bach a Chanolig a Rhwydwaith Cyflogadwyedd, i helpu i gael gwell darlun o'r hyn sy'n digwydd yng Nghanolbarth Cymru a gwybodaeth ranbarthol fel sylfaen ar gyfer y ddarpariaeth heddiw ac yn y dyfodol.</p> <p>iii. Gweithgor Cysylltedd a Seilwaith</p> <p>Dywedodd AE ein bod, ar adeg paratoi'r Adroddiad, newydd ddiodeff nifer o wythnosau o lifogydd ac roedd y rhwydwaith wedi'i effeithio'n sylweddol. Roedd hynny'n tanlinellu'r angen i weithio tuag at sicrhau cadernid coridorau strategol yn y dyfodol.</p> <p>Dywedodd AE fod LIC wedi dechrau proses o ymgynghori ar Adroddiad Cwmpasu Strategaeth Drafnidiaeth Cymru a bydd y rhanbarth yn paratoi ymateb ar gyfer Bwrdd TraCC ar 6ed Gorffennaf, a fydd yna'n cael ei ddisbarthu ymhlith Partneriaeth TCC ar gyfer sylwadau.</p> <p>Dywedodd AE fod LIC wedi cyflwyno cyllid brys i gynorthwyo rheilffyrdd a bysiau fel rhan o Covid-19 ac maent wedi cyhoeddi i Awdurdodau Lleol gamau cyntaf</p>	

	grantiau trafndiaeth i ddarparu seilwaith trafndiaeth ar gyfer bysiau, cerdded a seiclo. Fel rhan o becynnau Covid-19 mae TrawsCymru wedi rhoi'r gorau dros dro i siwrneiau ar benwythnosau, i osgoi annog pobl i deithio ar draws y wlad ar hyn o bryd.	
7.	<p><u>Gwaith a Chyfarfodydd yn y Dyfodol</u> Dywedodd y Cadeirydd fod trafodaethau a gwaith yn ymwneud â phrosiectau o fewn y sector cyhoeddus a'r sector preifat yn symud ymlaen. Dywedodd y Cadeirydd mai'r gobaith yw y bydd dogfen y cynnig rhanbarthol yn cael ei derbyn a bydd modd symud ymlaen gyda'r gwaith yn eithaf cyflym.</p> <p>Cytunodd yr Aelodau i ystyried cynnal cyfarfod nesaf Partneriaeth TCC ym mis Medi arlein, o ystyried llwyddiant y cyfarfod heddiw. Cytunodd yr Aelodau i ddal ati i gynnal cyfarfodydd arlein yn y dyfodol i leihau'r teithio pryd bynnag y bo modd, gan gydnabod y byddai'n fuddiol cwrdd wyneb yn wyneb o bryd i'w gilydd, ac i ystyried cwrdd mewn lleoliadau busnes gwahanol ar draws yr Awdurdod pan fydd hi'n ddiogel gwneud hynny, i hyrwyddo gwaith y Bartneriaeth ac i godi proffill busnesau.</p> <p>GWEITHREDU: Gofynnodd y Cadeirydd i'r Ysgrifenyddiaeth sicrhau bod Cadeirydd y Grŵp Strategaeth Economaidd yn cael gwahoddiad i gyfarfodydd y Bartneriaeth yn y dyfodol.</p>	Gweinyddol
8.	<p>DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 21ain Medi ar Zoom (manyllion i'w cadarnhau)</p>	

**Y CYNGHORYDD ROSEMARIE HARRIS – ARWEINYDD
 CYNGOR SIR POWYS
 YN Y GADAIR**